**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw holi rhanddeiliaid am eu barn ynghylch a ddylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gynnal proses i fabwysiadau is-ddeddfau newydd ar gyfer Harbwr Porthcawl (“yr Harbwr”) ac adolygu'r is-ddeddfau sydd mewn grym ar hyn o bryd yn Harbwr Porthcawl, a hynny er mwyn adlewyrchu'r gweithrediadau a'r gweithgareddau cyfredol, neu geisio mynd i'r afael â'r materion sy'n codi yn yr Harbwr drwy ddull arall. Mae gan y Cyngor bwerau i greu is-ddeddfau ar gyfer Harbwr Porthcawl yn unol â darpariaethau Rhan V o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 (“Deddf 1987”).

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfleoedd i ymwneud â rhanddeiliaid a phartneriaid yn lleol drwy Bartneriaeth yr Arfordir a Grŵp Rhanddeiliaid Harbwr Porthcawl, lle trafodir diogelwch dŵr yn rhan o'r agenda. Un pwnc a wyntyllir yn rheolaidd yw'r amryfal ffyrdd y defnyddir y dyfroedd o gwmpas yr Harbwr, sy'n aml yn groes i'w gilydd. Galwyd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am ddatrysiad ymarferol i bawb sy'n defnyddio'r Harbwr a fydd, ar yr un pryd, yn rhoi iddo beth rheolaeth dros yr ardal nad oes ganddo ar hyn o bryd yn yr is-ddeddfau sydd wedi dyddio.

Ar sail adolygiad Iechyd a Diogelwch diweddar, ynghyd â digwyddiadau diweddar yn yr ardal, ystyrir bod angen is-ddeddfau newydd ar yr Harbwr ac y dylid dirymu'r is-ddeddfau cyfredol yn rhannol. Wrth gynnal proses i fabwysiadau is-ddeddfau newydd, nid oes bwriad rhwystro dim gweithgaredd penodol. Yn hytrach, y nod yw rhoi rhai rheolau clir ar waith sy'n gydnaws ag ardaloedd arfordirol a glan cei eraill sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch eu defnyddwyr.

Mae ardaloedd penodol o fewn i ardal yr Harbwr (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987) ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i is-ddeddfau lleol sy'n nodi Mannau Ymdrochi Cyhoeddus drwy Borthcawl. Sefydlwyd yr is-ddeddfau hyn ym 1953 gan Gyngor Dosbarth Trefol Porthcawl. Mae is-ddeddf yn ddeddf leol a grëir gan gorff statudol yn unol â phŵer galluogi sydd wedi'i gynnwys mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf y Cynlluniad Cenedlaethol.

Byddai'r is-ddeddfau yn cwmpasu'r materion canlynol:-

- Angori
- Mordwyo
- Pysgota
- Parcio
- Ymdrochi a phlymio
- Llifddorau
- Y Llithrfa
- Cyfyngiadau ar y draethlin
- Gwastraff
- Diogelwch
- Diogeledd
- Cosbau

Er mwyn penderfynu a oes angen adolygu'r is-ddeddfau, rydym yn awyddus i wybod a ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r Harbwr.

Ticiwch yr opsiwn/opsiynau sy'n eich disgrifio chi orau fel ymatebwr.

- ☐ Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI) Porthcawl
- ☐ Deiliad Angorfa ym Marina Porthcawl
- ☐ Clwb Achubwyr Bywydau Porthcawl
- ☐ Clwb Achubwyr Bywydau Rest Bay
- ☐ Sefydliad Cenedlaethol Gwylio'r Arfordir
- ☐ Swim Smooth Cymru (Clwb Nofio Dŵr Agored)
- ☐ Cyngor Tref Porthcawl (Cynghorwyr)
- ☐ Aelodau o Bartneriaeth yr Arfordir
- ☐ Perchnogion/Rheolwyr Adeilad Jennings
- ☐ Heddlu De Cymru
- ☐ Cadetiaid y Môr Porthcawl
- ☐ Clwb Cychod Harbwr Porthcawl
- ☐ Cynghorydd Tref Porthcawl
- ☐ Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

A ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r Harbwr?

- o Ydw
- o Nac ydw

Os mai 'Ydw' oedd eich ateb, disgrifiwch beth ddigwyddodd a beth yw'r problemau.

- o Ysgrifennwch yr hyn a fynnwch

A ydych yn credu y gellid delio ag unrhyw broblemau drwy ddefnyddio dull arall heblaw am fabwysiadu is-ddeddfau, fel y gallwn ni sicrhau bod modd delio â'r problemau hynny yn effeithiol yn y dyfodol?

- o Ydw
- o Nac ydw
- o Dydw i ddim yn siŵr

Os mai 'Ydw' oedd eich ateb, dywedwch sut y gellir rheoli'r problemau hyn yn effeithiol.

- o Ysgrifennwch yr hyn a fynnwch

A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â Harbwr Porthcawl ac adolygu neu fabwysiadu is-ddeddfau?

- Ysgrifennwch yr hyn a fynnwch